**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1178
Ein cyf/Our ref JMEWL/11178/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Medi 2021 (ynghylch deiseb P-06-1178-21: Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru).

Bydd y gwaith o adolygu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cynnwys nifer o opsiynau. Er nad wyf wedi diystyru unrhyw beth, nid yw'r cyllid yn ddiderfyn, a byddai angen gwneud dewisiadau anodd mewn meysydd eraill er mwyn darparu prydau ysgol am ddim i bawb. Yn bwysicaf oll, rwyf eisiau sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i roi helpu'r teuluoedd sydd ei angen fwyaf.

Rwyf eisiau'ch sicrhau mae bwriad yr adolygiad yw gwneud yn siŵr bod mwy o blant yng Nghymru yn cael prydau ysgol am ddim, ac felly byddaf yn ymestyn y meini prawf cymhwystra. Er hynny, mae cyllid yn ystyriaeth bwysig gan fod ymestyn cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ymrwymiad ariannol hirdymor a fydd yn mynd y tu hwn i dymor y Llywodraeth bresennol. Rhaid caelcydbwysedd rhwng helpu cynifer o deuluoedd â phosibl ar y naill law a gwneud y mwyaf o arian cyhoeddus ar y llall.

Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal drwy nifer o ffrydiau gwaith, a bydd un o'r rheini'n ystyried ymchwil a dysgu o'r dulliau gweithredu sydd ar waith mewn mannau eraill. Bydd swyddogion yn edrych ar yr enghreifftiau y mae Mr Johannes wedi'u dwyn i'n sylw yn ei lythyr, er mwyn gweld a oes modd priodoli'r arferion hynny i'r sefyllfa yn Nghymru.

Mae ffrwd waith arall o'r adolygiad yn ystyried yr effaith a gaiff newid y meini prawf cymhwystra ar y grantiau a'r mentrau sy'n dibynnu ar y niferoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ni ddylid caniatáu i hyn fod yn rhwystr rhag cynyddu'r niferoedd sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Er hynny, fel dywed Mr Johannes, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau, os ydym yn trin cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim a'r grantiau a'r mentau hyn fel ddau beth ar wahân, nad yw teuluoedd ar eu colled oherwydd hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Awgryma Mr Johannes ein bod yn meddwl am hyn, a’r costau cysylltiedig, mewn ffordd cyd-gysylltiedig, ac fe hoffwn gadarnhau fy mwriad i roi trefniadau ar waith ar gyfer monitro a gwerthuso’r effaith a gaiff unrhyw newidiadau sy’n cael eu gwneud gennyf.  Bydd hyn yn cynnwys deall yr effaith y mae cael prydau ysgol am ddim yn ei chael ar iechyd a chyrhaeddiad addysgiadol plant a phobl ifanc cymwys.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i’r pwyllgor. Os hoffech ragor o fanylion, rhowch wybod i mi.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language